

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 9fed Ebrill, 2019 am 7.30pm yn Ysgol Cribyn**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd) Lynford Thomas, Gerwyn Owen, Johnny Davies, Daniel Evans, Lyn Williams, Glyn Davies. Alan Henson, Owen Llywelyn, Harry Williams

**1. YMDDIHEURIADAU** Y Cyng Hywel Ifans

**2. CYFLWYNIAD PORTH Y GYMUNED**

Cafwyd cyflwyniad gan Enfys James un o Gysylltwyr Cymunedol Porth y Gwasanaeth, am y gwasanaeth newydd hwn a weithredir gan y Cyngor Sir, Mae'n cynorthwyo trigolion o bob oedran yng Ngheredigion i wneud cysylltiadau i gael cyfleoedd cefnogaeth yn eu hardal eu hunain er mwyn gwella eu lles trwy adnabod datrysiadau sydd wedi eu targedu i gwrdd â'u hanghenion.

Soniodd hefyd am wefan DEWIS CYMRU sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r gwasanaethau sydd ar gael i helpu plant ac oedolion gyda'u llesiant e.e. gwasanaethau garddio, help gyda materion ariannol neu drafndiaeth a lluo o wasanaethau lleol a chenedlaethol a fydd efallai yn medru eich helpu.

Anogodd Enfys yr aelodau i rannu'r neges am y gwasanaeth rhad ac am ddim hwn yn ogystal â gwneud apêl i ychwanegu gwybodaeth ar DEWIS CYMRU gyda manylion unrhywun a fyddai'n gallu cynnig gwasanaeth alla'i fod o gymorth i ddefnyddwyr. Gellid gwneud hyn trwy'r wefan - [www.dewis.cymru](http://www.dewis.cymru) Rhif ffôn y tîm yn Aberaeron : 01545 574200

**3. PERSONOL** Dim i'w gofnodi.

**4. COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 12fed Mawrth, 2019 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Alan Henson ac eiliwyd gan Y Cyng. Johnny Davies.

**5. DATGELU BUDDION PERSONOL** Dim i'w datgelu

**6. MATERION YN CODI** Dim materion yn codi o'r cofnodion

**7. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am ei waith dros y mis diwethaf yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau yn y gymuned yn ogystal â chyfarfodydd yn trafod darpariaeth cerdd yng Ngheredigion ac opsiynau ychwanegol a gyflwynwyd parthed yr ysgol fro newydd a dyfodol gwasanaethau bysiau T1 a T2.

**8. FFORWM CANOLBARTH CYMRU BWRDD HYWEL DDA**

Cafwyd trafodaeth am y gwasanaeth hwn ac am y gwahoddiad i gynnig enwebiadau wrth aelodau'r cyhoedd ar draws y Canolbarth ar gyfer rôl Cadeirydd Fforwm Canolbarth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chleifion a'u Cynnwys.

**9. CYLLID** Dim materion cyllid i'w trafod

## 10.GOHEBIAETH

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth.

## 11.CYNLLUNIO

Dim materion cynllunio i'w trafod

## 12. UNRHYW FATER ARALL

- i. Tynnodd y Cyng. Johnny Davies sylw at fater a godwyd rhai misoedd yn ôl ynglŷn â choed ar hewl Faenog Isaf. Mae wedi dod i'w sylw bod rhai contractwyr yn anfodlon mynd ar hyd yr hewl rhag iddyn' nhw gwneud niwed i'w peiriannau. Gan fod y mater wedi ei gofnodi yn flaenorol trwy CLIC heb unrhyw ymateb, **penderfynwyd** y byddai'r Clerc yn cysylltu'n uniongyrchol ag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.
- ii. Mae'r hewl ar bwys Glanafon Cribyn yn llithrig ofnadwy oherwydd y tarmac. Tynodd Y Cyng, Alan Henson sylw at y ffaith bod yr arwyddion rhybuddio am y perygl ddim bob amser ar eu traed a bod angen datrys y broblem cyn bod damwain yn digwydd. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Priffyrdd.
- lii. Gofynnodd y Cyng. Glyn Davies am gysylltu â'r Sir i ofyn am gael llanw twll yn yr hewl wrth ' bus'shelter' Ystrad. **Penderfynwyd** y byddai'r Clerc yn rhoi gwybod i Adran y Priffyrdd.

## 13. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF A'R CYFARFOD BLYNYDDOL

Nos Fawrth, 8fed Mai 2019 yn Neuadd Dihewyd